Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru | Museums Federation Cymru

# Y Mag




## Helo!

Blwyddyn Newydd Dda, a Chroeso i rifyn cyntaf 2026 o'r Mag!

Bydd y rhifyn arbennig hwn yn sôn am Gynhadledd Cymdeithas yr Amgueddfeydd a gynhaliwyd yn Amgueddfa Hanes Genedlaethol Sain Ffagan fis Hydref 2025, drwy hanesion ac argraffiadau ein haelodau.


Eleni, y thema oedd 'Perthyn', a'r trafodaethau yn canolbwyntio ar gasgliadau sy'n perthyn i bawb, y modd y gall amgueddfeydd sicrhau bod pobl yn cael eu cynrychioli ac yn cyfranogi, ac ysbrydoli ymdeimlad o gymuned ac undod mewn cyfnodau o ymrannu.

Llwyddodd nifer o'n haelodau i fynychu'r gynhadledd drwy ein cynllun Datblygiad Proffesiynol a Chynadleddau. Mae'r cynllun hwn wedi bod yn bosibl diolch i gyllid gan Lywodraeth Cymru drwy'r Adran Ddiwylliant, a gyda chymorth Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru.

# Lois May Jones – Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Roedd yn ddiddorol clywed siaradwyr o bob cwr o'r DU yn dehongli'r thema,
a hynny ar dir Cymru. Roedd Sain Ffagan yn gefndir unigryw,
ac roedd yn ddiddorol rhannu rhywfaint o ddiwylliant Cymru gydag ymwelwyr o
bob cwr o Brydain. Roedd amrywiaeth o sesiynau, sgyrsiau, sesiynau hyfforddi a thrafod
aethau panel. Roedd yn anodd dewis gan fod nifer o'r sesiynau yn digwydd yr
un pryd. Roedd y sesiynau a fynychais yn ddiddorol ac yn addysgiadol.

**Sylwadau allweddol:**
Es i'r gynhadledd â diddordeb arbennig mewn clywed pr
ofiadau o gyd-
gynhyrchu gyda chymunedau a dysgu o enghreifftiau y
marferol. Roedd y sesiwn 'Ymladd i gael eich Clywed'
dan arweiniad amgueddfeydd Bradford yn rhannu'r profi
ad o weithio gyda chlwb bocsio ac artist caligraffi yn ar
bennig o ddiddorol. Heriodd yr artist y syniad mai'r fford
d orau o gyrraedd cymunedau yw drwy grwpiau â chysy
lltiadau wedi'u hen sefydlu, ond mewn gwirionedd gwell
yw mynd at bobl yn uniongyrchol gan y
gall sefydliadau fod yn geidwadol.



Llun gan Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru.

Roedd profiad Amgueddfeydd Birmingham o weithio gyda rheithgorau dinasyddion hefyd
yn ddiddorol iawn, yn enwedig y modd yr oeddent wedi digolledu'r cyfranogwyr. Y 10 awgr
ym gorau ar gyfer gwirfoddoli oedd sesiwn o hyfforddiant ymarferol oedd yn rhannu llawe
r o syniadau defnyddiol am arallgyfeirio a chynnig cyfleoedd hygyrch ac amrywiol.Mae i g
adwraeth elfen gymdeithasol, a dangoswyd ffordd wahanol o weithio gyda gwirfoddolwyr
drwy eu cynnwys mewn gweithgaredd cadwraeth a defnyddio dulliau traddodiadol. Hefyd
bod y prosiect gyda gwirfoddolwyr wedi bod o fudd i lesiant y cyfranogwyr drwy esblygu
i fod yn brosiect gwella'r cof wrth greu rygiau carpiau. Roedd yn ddiwrnod llawn a chynhyr
chiol iawn. Mae gennyf lawer o gysylltiadau i'w dilyn,
a gwybodaeth i'w rhannu gyda chydweithwyr yn ôl yng Nghastell Penrhyn.

**Y Camau nesaf:**

Hoffwn gysylltu â rhai o'r siaradwyr i gael rhagor o wybodaeth am
yr hyn a glywais, yn enwedig Amgueddfeydd Bradford ac Amgueddfeydd Birmingham.
Amgueddfeydd Bradford am eu profiad o gyd-gynhyrchu arddangosfa,
ac Amgueddfeydd Birmingham am sefydlu rheithgorau dinasyddion. Hefyd hoffwn gysyllt
u â thîm casgliadau Amgueddfa Cymru i glywed mwy am y modd y maent yn gweithio gyd
a gwirfoddolwyr ar brosiectau crefft sydd â dibenion cadwraeth ymarferol.
Dyma wybodaeth yr hoffwn ei rhannu gyda chydweithwyr yng Nghastell Penrhyn, mae ge
nnym wirfoddolwyr crefft a gwirfoddolwyr cadwraeth, ond dangosodd y sesiwn hon i mi s
ut y gallem gael dull mwy cydgysylltiedig o reoli gwirfoddolwyr rhwng timau.

# Nest Thomas – Amgueddfeydd Gwynedd / Amgueddfa Lloyd George

Dechreuodd y gynhadledd gyda gair o groeso gan Jack Sargant, Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, ac anerchiad i ddilyn gan y prif siaradwyr Justin O'Connor, Stephen Bush, Sarah Wajid ar “Nid Diwydiant yw Diwylliant”, ac dylid ystyried diwylliant o’r un safbwynt ag iechyd, addysg ac ati, a chael trafodaeth ar faint bwyslais y dylid ei roi ar gyfraniad diwylliant yn economaidd. Y diwrnod wedyn dechreuwyd drwy ystyried “Undod ar waith” gyda chyfranwyr ysbrydoledig - Hannah Fox, Elaine Gurion a Janet Marstine oedd yn pwysleisio bod angen i ni fod yn barod am yr hyn a ddaw a pharatoi ar ei gyfer, a'r angen i gefnogi ein staff, a’r cyfan hyn o fewn y cyd-destun sensoriaeth wleidyddol bosibl.

**Y Camau Nesaf:**
Roedd mynychu sesiynau ar faterion megis amgueddfeydd dinesig a threftadaeth ddiwylliannol anniriaethol yn rhoi’r cyd-destun, a dysgu am y modd y defnyddiwn ein gofod, yn cysylltu â phobl, ac yn cysylltu casgliadau â'u straeon, i gyd gyda llinyn cyffredin o fod yn gynhwysol, sy'n berthnasol i'm gwaith. Roedd y sesiwn ar amgueddfeydd dinesig hefyd yn cynnwys gweithdy y bûm ynddo –bod rhwydwaith Amgueddfeydd Dinesig Lloegr “yn siarad â'r llywodraeth â llais unedig” - oedd yn edrych ar faterion megis y cais am gyllid ar gyfer amgueddfeydd yn Lloegr. Ar ran y Ffederasiwn, cyflwynais wybodaeth am y sefyllfa yng Nghymru a chyfeiriais at ein maniffesto ar gyfer amgueddfeydd. Roedd dysgu am eu sefyllfa hwy, a'r camau nesaf gyda'r Adran DCMS yn bresennol, yn dangos pa mor bwysig yw eiriolaeth, yn benodol ar gyfer cyllid. Mae angen i ni hefyd edrych ar y posibilrwydd o gael rhyddhad treth ar arddangosfeydd, a’r modd y gallem fanteisio ar hynny. Mae angen codi hyn mewn pwyllgor y Ffederasiwn – beth yw'r broses ac ati.

**Y gwersi a ddysgwyd:**
Roedd yn wych gallu mynychu'r Gynhadledd yng Nghymru a bod cynifer ohonom o amgueddfeydd Cymru yn bresennol ac yn cymryd rhan. Nid oeddwn wedi gweld ydatblygiad newydd yn Sain Ffagan na Thafarn y Vulcan yn ei le na'r Deml Heddwch – i gyd yn bwysig i'n dealltwriaeth o amgueddfeydd a diwylliant Cymru.


Llun gan Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru.

Fel arfer, roedd y rhwydweithio yn dda. Roedd cymaint i’w ystyried, yn enwedig y prif areithiau a bod angen i ni fod yn barod am unrhyw newidiadau sydd yn yr arfaeth yn wleidyddol,a pheidio â diystyru eu heffaith. Mae angen gwneud asesiad risg ar gyfer hyn a chynorthwyo’r staff. Roedd y sesiwn ar dreftadaeth ddiwylliannol anniriaethol yn ysbrydoledig ac yn gyffrous ac yn pwysleisio’r cysylltiad rhwng gwrthrychau a’u cyd-destun gan gynnwys enwau lleoedd a chaneuon.

Hefyd, mae bod yn gynhwysol mor bwysig ar adeg pan fo llawer o bobl yn teimlo eu bod wedi’u targedu, ac mae gan amgueddfeydd rôl i gefnogi cymunedau. Mae hyn i gyd yn ddysg i’w drosglwyddo i Wasanaeth Amgueddfeydd Gwynedd. Hefyd braf oedd gweld Rachael Rogers ar ran y Gymdeithas Amgueddfeydd yn cyflwyno Gwobrau ‘Amgueddfeydd yn Newid Bywydau’. Dymunaf ddiolch i chi am y grant ac am roi’r cyfle hwn i mi, all fod yn fy nghynhadledd olaf – gawn weld!

# Helen Henley

Rwy'n hynod ddiolchgar o fod wedi elwa ogrant Datblygiad Proffesiynol a Chynadleddau Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru, a alluogodd fi i fynychu'r gynhadledd am y tro cyntaf. Thema'r gynhadledd eleni oedd Perthyn, ac roedd rhaglen y gynhadledd yn canolbwyntio ar wahanol agweddau ar y thema hon, megis mynediad, cynhwysiant, cymuned, cyfranogi a chynrychioli. Roedd lleoliad gwledig Sain Ffagan yn gefndir hyfryd i ymlacio, myfyrio a sgwrsio ym myd natur rhwng sesiynau'r gynhadledd.

**Sylwadau allweddol:**

Agorodd diwrnod llawn cyntaf y gynhadledd gyda chyflwyniad gan westeiwr y gynhadledd, O'Mo lemo Thamae, a gair o groeso gan Jack Sargeant,y Gweinidog dros Ddiwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol. Roedd y sesiwn allweddol, 'Nid Diwydiant yw Diwylliant', yn drafodaeth ysgogol ar lyfr Justin O'Connor o'r un enw, 'Culture is not an Industry', gyda Sara Wajid a Stephen Bush ar y panel. Roedd sesiynau craidd eraill yn cynnwys araith allweddol yr Arlywydd, a hefyd gwobrau 'Amgueddfeydd yn Newid Bywydau', oedd yn cynnwys trosolwg ysbrydoledig o'r modd y mae'r prosiectau a enwebwyd wedi creu effaith gymdeithasol yn eu cymunedau. Mwynheais yn arbennig y sesiwn ar 'Amgueddfeydd yn bŵer ymgynnull mewn cyfnod o bolareiddio cynyddol', sef trafodaeth banel oedd yn canolbwyntio ar lwyddiannau'r rhaglen o ddigwyddiadau 'Amgueddfeydd yn Dathlu' oedd yn dod â diwylliannau ynghyd yn Amgueddfa Manceinion.

Roedd cymaint o gyflwyniadau o ddiddordeb yn ystod y gynhadledd nes ei bod hi'n anodd dewis pa rai i fynychu. Rwy'n bwriadu dal i fyny â'r sesiynau sydd wedi'u recordio pan fyddant ar gael ar wefan Cymdeithas yr Amgueddfeydd. Hefyd mae gennym gyfarfod tîm wedi'i drefnu i rannu'r dysgu sy'n deillio o fynychu'r gynhadledd, ac rwy'n edrych ymlaen at glywed gan gydweithwyr am y sesiynau y buont hwy yn eu mynychu.



Llun gan Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru.

Roedd y sesiwn ar Newid Cwricwlwm ac Arloesi yng Nghymru yn ysbrydoledig, ac yn arbennig o berthnasol i'm gwaith mewn Dysgu mewn Amgueddfeydd. Roeddwn yn awyddus i glywed yr astudiaethau achos ar y modd y mae'r amgueddfeydd yng Nghymru wedi addasu eu harlwy presennol neu wedi creu gweithdai ac adnoddau newydd yn unol â'r Cwricwlwm newydd i Gymru gyda chymorth gan GEM Cymru. Yn yr un modd, roedd y sesiwn 'Ymgorffori arferion gwrth-hiliol mewn amgueddfeydd bach' yn drosolwg diddorol iawn o'r gwaith yng Nghastell Cyfarthfa gyda grwpiau cymunedol lleol ac ysgol leol. Roedd y sesiwn ar '10 awgrym ar ysgrifennu labeli testun' gyda Lucy Harland yn sesiwn wych gydag awgrymiadau ymarferol ar ddehongli clir a hygyrch y byddaf yn eu rhoi ar waith yn fy ngwaith fy hun. Roeddwn hefyd yn gwerthfawrogi'r cyfle i gysylltu â chydweithwyr o amgueddfeydd eraill drwy gydol y gynhadledd.

**Y gwersi a ddysgwyd:**

Mae mynychu'r gynhadledd wedi fy ngalluogi i ddysgu mwy am rywfaint o'r gwaith gwych sy'n cael ei wneud gan amgueddfeydd sy'n gweithio gyda'u cymunedau lleol. Rwyf wedi cael cipolwg ar ffyrdd o weithio gyda'r gymuned a'r cynhwysion sydd eu hangen ar gyfer partneriaethau llwyddiannus. Hefyd, cefais fudd o glywed am brosiectau sy'n gweithio gyda grwpiau ysgolion, a meddwl am sut i ymgorffori cyfleoedd ar gyfer dysgu sy'n canolbwyntio ar y plentyn mewn gweithdai addysgol. Roeddwn yn awyddus i glywed syniadau am ffyrdd o ymgysylltu â gwahanol gynulleidfaoedd er mwyn ennyn ymdeimlad o berthyn, a gobeithio ymgorffori rhywfaint o'r feddylfryd hon yn fy ngwaith bob dydd.

# Sienna Holmes – Amgueddfa Andrew Logan



Llun gan Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru.

Roedd y gynhadledd wedi dod â gweithwyr proffesiynol amgueddfeydd ynghyd o bob cwr o'r DU ar gyfer sesiynau, gweithdai, archwiliadau safle, a rhwydweithio oedd yn canolbwyntio ar fod yn gynhwysol, yn gymuned ganolog, ochr yn ochr â dadwladychu, dehongli meddylgar, a chael sector sy'n gynaliadwy.

Yn ystod fy amser yn y gynhadledd, cymerais ran mewn nifer o dd arlithoedd, seminarau a gweithdai, yn fwyaf nodedig,
y gweithdy ar ymgorffori traws-gynhwysiant,
y sesiwn 'Absolutely Fabulous' ar ffasiwn a threftadaeth, sawl darlith allweddol effeithiol, a thaith gerdded Amgueddfa Cymru ar hanes hoyw.

**Sylwadau allweddol:**

Cefais fod y gynhadledd yn brofiad blaengar, heriol a gwerth chweil. Roedd y rhaglen yn archwilio beth mae perthyn yn ei olygu mewn gwirionedd i amgueddfeydd cyfoes, gyda neges gyffredin oedd yn annog sefydliadau i ddod yn fannau gofal a deialog. Roedd y Sesiynau Craidd, yn enwedig 'Nid Diwydiant yw Diwylliant' gyda'r awdur Justin O'Connor, ac 'Undod ar Waith' dydd Mercher gyda Hannah Fox, Elaine Gurian, a Janet Marstine, yn effeithiol ac yn alwad i'r gad i'r sector. Tra bod y gweithdy ar 'Dreftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol' yn archwiliad deniadol a chwareus o dreftadaeth ddiwylliannol sy'n fyw ac yn esblygu, yn hytrach nag arteffact sefydlog - a gyflëwyd yn ddeheuig gan James January-McCann yn ei ddarlith ar ei Restr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru gyda'r Comisiwn Brenhinol ar Henebion Cymru. Yn ogystal, roedd y sesiynau ar ffurf seminar ar Traws-gynhwysol a Ffasiwn a Threftadaeth yn atgyfnerthu pa mor bwysig yw cynrychiolaeth a chreadigrwydd fel cyfrwng i gysylltu.

**Y Camau nesaf:**

Yn dilyn y gynhadledd, rwy'n bwriadu neilltuo rhan o'n cyfarfod tîm nesaf yn Amgueddfa Andrew Logan i rannu'r ddirnadaeth hon gyda'r tîm ehangach, gan ganolbwyntio ar y modd y gallwn blethu dulliau cynhwysol a chyfranogol i'n gwaith a'n dehongli. Rwy'n gobeithio addasu'r hyn a ddysgwyd o'r gweithdy Traws-gynhwysol yn becyn cymorth ymarferol ar gynhwysiant ar gyfer arddangosfeydd a digwyddiadau yn y dyfodol, yn enwedig fel gofod sydd â chasgliad sy'n canolbwyntio ar hanes LGBTQIA+. Wedi fy ysbrydoli gan y trafodaethau ar Dreftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol, rwy'n gobeithio archwilio sut y gall yr hanesion hyn amlygu hanes diwylliannol a dyrys y gymuned hon yn well, o bosibl drwy hanesion llafar ac adrodd straeon ar y cyd. Ar ben hynny, roeddwn yn teimlo bod model 'Rheithgor Dinasyddion' Ymddiriedolaeth Amgueddfa Birmingham yn ysbrydoledig iawn, ac rwy'n awyddus i ffurfio fforwm bach o gyfranogwyr ar ein prosiect etifeddiaeth wrth i ni symud ymlaen i'r cam o gyflawni ein prosiect. Byddaf hefyd yn parhau i ymgysylltu â rhwydwaith Cymdeithas yr Amgueddfeydd, gan adolygu'r sesiynau ffrydio a chlustnodi hyfforddiant pellach ar gyd-guradu cymunedol a dehongli treftadaeth sy'n adeiladu ar y gwersi hyn.

**Y gwersi a ddysgwyd:**

Cadarnhaodd y gynhadledd hon bod amgueddfeydd yn ffynnu pan fyddant yn canolbwyntio ar bobl, nid dim ond ar gasgliadau. Roedd y sesiwn ar Ymarfer Traws-gynhwysol wedi dangos sut mae'n rhaid ymgorffori cynhwysiant gwirioneddol ym mhob agwedd ar waith amgueddfa, o ddehongli a hyfforddi staff i gyfleusterau a chyfathrebu. Roedd y drafodaeth ar 'Absolutely Fabulous' yn dangos sut y gall diwylliant dillad a defnyddiau fynegi hunaniaeth bersonol a gwleidyddol, gan sbarduno syniadau ar y modd y gallem ddehongli gwisgoedd Gwesteiwr/ Gwesteiwraig Andrew Logan fel straeon diwylliannol byw. Roedd y gweithdy ar Dreftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol yn arbennig yn taro tant. Roedd clywed gan James January-McCann am brosiect enwi lleoedd Comisiwn Brenhinol Cymru yn dangos sut mae cadwraeth iaith ac ymgysylltu cymunedol yn croestorri yn bwerus drwy enwi ac adrodd straeon. Gwnaeth hyn i mi ystyried sut y gallem archwilio naratifau personol tebyg yn ein cyd-destun ein hunain, ac o bosibl cysylltu treftadaeth hoyw a hunaniaeth wledig drwy hanesion llafar neu fapio creadigol. Roedd model Rheithgor Dinasyddion Ymddiriedolaeth Amgueddfeydd Birmingham yn cynnig modd gwirioneddol o wneud penderfyniadau yn ddemocrataidd, rhywbeth rwy'n awyddus i'w dreialu ar raddfa lai. Yn y cyfamser, roedd y Daith Gerdded ar hanes hoyw o gwmpas y casgliad yn Sain Ffagan yn dangos y modd y gall dehongli curadurol croestoriadol annog ymgysylltu empathig, a gwneud arddangosfeydd yn fwy hygyrch. At ei gilydd, dysgais y gall amgueddfeydd bach fel ein hamgueddfa ni gael mwy o ddylanwad ac effaith drwy gydweithio, arbrofi, a bod yn agored, gan fod yn ofod lle mae creadigrwydd, hunaniaeth a llawenydd yn rhagori.

# Danielle Jackson – Amgueddfa Abertawe

Roedd thema'r gynhadledd yn tynnu sylw at egwyddor graidd a hyrwyddir o fewn y sector amgueddfeydd; bod gan y cymunedau a gynrychiolwn yr hawl i gymryd rhan a bod yn rhan o'n casgliadau a'n rhaglenni o ddigwyddiadau. Wrth hwyluso hyn, rydym yn meithrin ymdeimlad o berthyn o fewn y cymunedau hynny, a gallwn addasu i newidiadau yn yr hyn a goleddir gan y cymunedau hynny i'r gwrthrychau a'r straeon sydd yn ein gofal.

**Sylwadau allweddol:**

Roedd y sesiwn agoriadol yn canolbwyntio ar lyfr Justin O'Connor' Nid Diwydiant yw Diwylliant' oedd wedi gosod y naws ar gyfer y gynhadledd. Dadleuodd na ddylai'r sector diwylliannol gyfiawnhau ei fodolaeth drwy roi gwerth ariannol ar y gwaith a wnawn, y dylid trin y sector yn hytrach fel seilwaith sylfaenol sy'n ychwanegu at gydlyniant cymdeithasol. Trafodwyd hefyd y polareiddio gwleidyddol a chymdeithasol sy'n digwydd yn ein gwlad ac ar draws y byd. Roedd nifer o'r sesiynau yn trafod sut y gellir defnyddio ymdeimlad o berthyn i wrthweithio'r hinsawdd elyniaethus ar hyn o bryd ac ail-fynd i'r afael ag anghyfiawnderau'r gorffennol (a'r presennol). Fodd bynnag, cydnabuwyd bod angen gwneud llawer mwy, ac y dylwn fel sector fod yn fwy radical yn ein dulliau o weithredu.

**Y camau nesaf:**

Roedd y sesiwn 'Archwilio Sain Ffagan, Ynghudd o'r Llygad Noeth' wedi rhoi pwyntiau trafod rhagorol, a syniadau ar ffyrdd amgen o weithio ar gasgliad. Drwy ei gwaith, roedd yr artist Nasia Sarwar-Skuse wedi amlygu'r modd y mae gwahanol bobl a gwahanol gynulleidfaoedd yn dehongli gwrthrychau, a sut y gall arddangos eitem chwarae â'r dehongliadau hyn ac ychwanegu haenau newydd o ddealltwriaeth. Roedd Nasia wedi cymryd eitemau (gwreiddiol ac wedi'u hail-ddychmygu) gafodd eu prynu a'u dwyn gan gyfoeth a gasglwyd gan yr Ymherodraeth ac wedi cymryd perchnogaeth yn ôl ar yr eitemau hynny.

Hefyd, roedd ei gwaith gyda'r grŵp o artistiaid benywaidd yn unig, sef Aurora Trinity Collective o'r enw 'Resilience', wedi cynhyrchu eitemau sydd bellach wedi'u hychwanegu at gasgliad Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Wedi'u hysbrydoli gan sampleri brodwaith oedd eisoes yn y casgliad, mae eu gwaith bellach yn cael ei arddangos yn oriel y Gweithdy, sy'n archwilio sut mae crefftau yn cael eu gwneud. Mae hwn yn waddol oes, sy'n ychwanegu haenau newydd o ystyr a mewnwelediad i greadigrwydd menywod mewn cyd-destun cyfoes a hanesyddol. Mae llyfryn yn cyd-fynd â'r gweithiau; mae hyn yn cynnwys datganiadau artistiaid a argraffwyd yn newis iaith pob artist, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae defnyddio amrywiaeth ehangach o ieithoedd yn agor drysau i'r casgliad i wahanol gynulleidfaoedd na fyddent fel arall wedi teimlo cysylltiad â'r eitemau a arddangosir.

Mae'r dulliau gwahanol hyn o ymdrin â chasgliadau amgueddfeydd yn rhywbeth yr wyf wedi dysgu ohono ac yn gobeithio ei addasu ar gyfer prosiect cydweithredol yma yn Amgueddfa Abertawe.

**Y gwersi a ddysgwyd:**

Y sesiwn 'Diwylliant traws-gynhwysol: hyrwyddo tegwch a pharch traws mewn cyfnodau heriol' oedd uchafbwynt y gynhadledd i mi. Roedd yn enghraifft o'r pŵer sydd gan y sector hwn i wneud newid cadarnhaol, lledaenu deall a derbyn, a buddsoddi yn yr ymchwil angenrheidiol i ganiatáu i hyn ddigwydd. Mae tîm Canolfan Ymchwil Amgueddfeydd ac Orielau Prifysgol Leicester yn cynnal gwaith angenrheidiol sy'n helpu i arwain y sector yn y maes pwnc hwn. Fel rhywun nad yw'n aelod o'r gymuned LGBTQI+ ond sy'n un sy'n dymuno hwyluso amgylchedd cynhwysol, mae eu gwaith yn rhoi cyfeiriad a chefnogaeth i'm helpu i gyflawni hyn yn fy ngweithle.

Mae'n gysur mawr eu bod yn parhau i weithio ar eu hadnodd 'Diwylliant Traws-Gynhwysol', y byddaf yn parhau i gyfeirio ato wrth iddo gael ei ddiweddaru.

Roedd sylfaenydd Amgueddfa Trawsoleg, EJ Scott, yn ysbrydoledig i wrando arno. Mae'r hyn a gyflawnwyd ganddynt drwy gydlynu cymunedau traws ledled y wlad, a chyd-guradu'r arddangosfa derfynol, yn enghraifft ardderchog o'r hyn y gellir ei gyflawni wrth ddylunio arddangosfa, waeth beth fo'r pwnc. Mae'r ffaith eu bod wedi gwneud hyn ar gyfer 'Trawsiaeth' mewn cyfnod o elyniaeth gynyddol hyd yn oed yn fwy trawiadol ac yn rhoi safon ragorol I weithio tuag ati. Tynnodd EJ Scott sylw hefyd at bwysigrwydd cael gwahanol barthau mewn arddangosfa i helpu gwahanol ymwelwyr i lywio a theilwra eu profiad. Mae hyn o bwys arbennig wrth fynd i'r afael â phynciau trawmatig, y gallai pobl fod eisiau paratoi eu hunain yn feddyliol ar eu cyfer, neu eu hosgoi yn gyfan gwbl.



Llun gan Danielle Jackson.

# Tiffany Treadway – Amgueddfa Pontypridd

Archwiliodd y gynhadledd thema perthyn, gan bwysleisio bod casgliadau a straeon amgueddfeydd yn eiddo i bawb. Tynnodd sylw at bwysigrwydd cynrychioli a diogelu mynegiadau amrywiol o ddiwylliant a hanes o fewn gwaith amgueddfeydd. Wedi'i chynnal fel fforwm ar gyfer myfyrio ac arloesi, archwiliodd y gynhadledd sut y gall amgueddfeydd addasu i newidiadau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol parhaus wrth barhau i ysbrydoli creadigrwydd. Canolbwyntiodd y trafodaethau ar oblygiadau'r newidiadau hyn i waith yr amgueddfeydd, yr angen am ddatblygu polisïau ymatebol, a strategaethau i sicrhau bod amgueddfeydd yn parhau i fod yn fannau cynhwysol, deinamig a pherthnasol i'w cymunedau.

**Sylwadau allweddol:**
Roedd y cwrs yn gyfoeth o wybodaeth dechnegol ac arsylwadol, ynghyd â sesiynau hyfforddi wedi'u targedu. Cafodd y cyfranogwyr nifer o gyfleoedd i rwydweithio, gan gael cipolwg ar ehangder y gwaith a wneir gan amgueddfeydd a'u swyddogaethau cymdeithasol. Agorodd y diwrnod cyntaf gyda gair o gyflwyno gan O'Molemo Thamae, ac yna cyflwyniad gan Justin O'Conner, a archwiliodd y cysyniad nad diwydiant yw diwylliant. Roedd yr ail ddiwrnod yn cynnwys tri siaradwr gwadd a gynigiodd safbwyntiau ar hinsawdd wleidyddol amgueddfeydd yn yr Unol Daleithiau.

**Y camau nesaf:**
Yn dilyn y gynhadledd, rwyf wedi datblygu cynnig ar gyfer menter codi arian, ac yn bwriadu drafftio cynnig ar gyfer arddangosfeydd dros dro.
Roedd y sesiynau ar ysgrifennu a chysylltiadau cyhoeddus yn gwneud i mi fabwysiadu safbwyntiau a dulliau newydd o greu testun dehongli ar gyfer labeli amgueddfeydd. Dysgais hefyd sut i amrywio a chymysgu gwahanol arferion i wella ein strategaethau cysylltiadau cyhoeddus. Ar gyfer dysgu pellach, byddwn yn argymell gweithdai ychwanegol ar ddylunio arddangosfeydd technegol ac integreiddio ymgysylltu cymunedol fyddai'n adeiladu ar y sgiliau a ddysgwyd o'r gynhadledd hon.



Llun gan Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru.

Roedd y gynhadledd wedi rhoi mewnwelediad gwerthfawr i sawl agwedd ar waith amgueddfeydd. Roedd y sesiynau ar gysylltiadau cyhoeddus wedi cyflwyno strategaethau arloesol i wella amlygrwydd ac ymgysylltiad cymunedol amgueddfa. Cefais ddealltwriaeth ddyfnach o ysgrifennu deunydd esboniadol effeithiol ar gyfer labeli, gan sicrhau bod y wybodaeth yn glir, yn ddeniadol, ac yn hygyrch i gynulleidfaoedd amrywiol - maes sydd wedi cryfhau fy sgiliau presennol. Hefyd rhoddwyd sylw i fentrau ymarferol o godi arian sy'n cynnal prosiectau dros dro a hirdymor. Roedd arsylwi amrywiol astudiaethau achos wedi dangos sut y gall amgueddfeydd effeithio'n gadarnhaol ar gymunedau lleol, gan feithrin cysylltu a chyfranogi, tra hefyd yn datgelu gwersi o'r heriau a'r rhwystrau. Roedd y trafodaethau ar gadwraeth wedi tynnu sylw at ddulliau arbrofol o reoli tiroedd treftadaeth ac adeiladau hanesyddol, gan arddangos ffyrdd creadigol o ddatrys problemau mewn cyd-destunau amlweddog. Gyda'i gilydd, roedd y sesiynau hyn wedi cyflwyno ffyrdd newydd o weithio sy'n cyfuno technegau ymarferol â meddwl strategol, gan bwysleisio addasu, cydweithio, a dulliau sy'n canolbwyntio ar y gymuned.

# Rhian Hall – Gwasanaeth Treftadaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Drwy gymorth cyllid gan Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru, roedd dau aelod o Wasanaeth Treftadaeth Rhondda Cynon Taf wedi mynychu Cynhadledd y Gymdeithas Amgueddfeydd yn Sain Ffagan ar y 7fed i'r 8fed o Hydref.

Thema 2025 oedd 'Perthyn' ac ymhlith y cysyniadau allweddol oedd y canlynol;

- sicrhau undod,
- y modd y gall amgueddfeydd fod yn lleoedd ar gyfer trafodaeth ac arferion cynhwysol,
- clymbleidio gyda chymunedau,
- defnyddio casgliadau i ysbrydoli ymdeimlad o berthyn a gwydnwch lleol/ cenedlaethol.

Ddydd Mawrth y 7fed y prif araith oedd 'Nid Diwydiant yw Diwylliant' oedd yn canolbwyntio ar symud diwylliant o'r maes 'diwydiant' i gyfrifoldeb cyhoeddus ochr yn ochr ag iechyd, addysg, lles cymdeithasol ac ati.

Roedd y drafodaeth yn tynnu sylw at y problemau o ran brandio celf a diwylliant fel 'diwydiannau creadigol' a'u cyfyngu i faes polisi a mesurau economaidd. Pwysleisiodd yr awdur y modd y mae cyfranogiad yn y celfyddydau/ diwylliant yn hawl sylfaenol i bawb, a'r modd y byddai agor seilwaith diwylliannol lleol i gymunedau yn sicrhau tegwch dros economeg.

Ddydd Mercher yr 8fed y prif araith oedd 'Undod ar Waith', oedd yn gyfle i drafod y safbwyntiau o'r UDA, a'r modd y mae amgueddfeydd yn ymateb i'r dde eithafol a'r modd y maent yn llunio strategaethau i sicrhau undod a gwydnwch. Roedd yn drafodaeth ddiddorol ar y modd y gall amgueddfeydd fod yn lleoedd i adeiladu cynghreiriau a chefnogi cymunedau amrywiol mewn cyfnodau o ansicrwydd a pholareiddio. Anogwyd amgueddfeydd y DU i ystyried sut y gellid gweithredu hyn yn yr arferion a'r polisïau cyfredol er mwyn sicrhau ein bod yn barod i fynd i'r afael â materion tebyg yn y dyfodol.

Sesiwn bwysig i Dreftadaeth Rhondda Cynon Taf fynychu oedd 'Mae'r tŷ hwn yn ennyn llawenydd' - sgwrs oedd yn canolbwyntio ar brosiect adolygu/ rhesymoli casgliadau cymunedol a dad-dderbyn yn Amgueddfa Parc Preston.

Roedd yn brofiad gweld sut oeddent wedi ymgysylltu â'u cymuned i wneud penderfyniadau am y casgliad, ac roedd yn ddefnyddiol deall yr heriau a wynebwyd ganddynt. Roedd y sesiwn wedi bod yn ysbrydoliaeth ar y modd y gallwn greu a gweithredu prosiect tebyg yn y dyfodol, gan y bydd hyn yn debygol o gael ei ariannu yn allanol, rhoddodd syniadau i ni ar sut i osod nodau a thargedau ar gyfer y prosiect, cynllunio priodol, cyfathrebu ac ymgysylltu ar y casgliad, ac eiriol dros ein casgliad a'i warchod.

Hefyd roeddem wedi mynychu'r sgwrs ar wrth-hiliaeth gan Amgueddfa Castell Cyfarthfa, ac roedd yn ddiddorol clywed sut oeddent wedi rhoi'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar waith. Roedd yn ddefnyddiol dysgu sut brofiad oedd gweithio gyda grŵp cymunedol newydd â threftadaeth ethnig amlddiwylliannol, a pha mor bwysig yw gwneud hyn i ddeall mwy am eich casgliad a'i gysylltiadau â'r gymuned. Roedd yn werthfawr deall y gwersi a ddysgwyd ganddynt, yn enwedig o ran diogelu cyfranogwyr ym mhob digwyddiad a gweithgaredd.

Cafwyd trafodaethau pwysig gyda nifer o sefydliadau drwy gydol y gynhadledd, roedd yn arddechog gallu trafod wyneb yn wyneb â'n swyddogion cyfatebol ledled Cymru y materion cadarnhaol a'r heriau a wynebir gennym ar hyn o bryd. Treuliwyd llawer o amser yn trafod y cyfleoedd ariannu a'r modd y gallem gefnogi ein hamgueddfeydd cyfagos yn Rhondda Cynon Taf.

Hefyd ymgysylltwyd â nifer o gynrychiolwyr o Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru, y Gronfa Dreftadaeth Genedlaethol, Llywodraeth Cymru a Chymdeithas yr Amgueddfeydd, gan sicrhau eu bod yn deall yr hyn a wneir ac a gyflawnir gennym ar hyn o bryd ond hefyd gan dynnu sylw at y meysydd cymorth sydd eu hangen.

Gwnaethom gysylltiadau newydd â'r byd busnes fydd yn gwella ein systemau gwaith ac yn ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd, megis Bloomberg Connects - ap digidol sy'n rhoi cynnwys a chanllawiau wedi'u curadu ar gyfer amgueddfeydd ac orielau. Mae gan yr ap dros 5 miliwn o ddefnyddwyr ac mae'n rhoi cyfle i rannu ein gwefan, arddangosfeydd a chasgliadau gyda chynulleidfaoedd ehangach.




Llun gan Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru.

# Cynllun Grant Caffael

Mae'r Ffederasiwn yn falch iawn o gyhoeddi grant newydd ar gyfer 2025/2026. Mae'r grant hwn i gefnogi Amgueddfeydd Achrededig lleol ac annibynnol (gan gynnwys Gweithio Tuag At Achredu) yng Nghymru i ddatblygu eu casgliadau craidd drwy brynu eitemau gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, eitemau sy'n dod ar gael o dan y cynllun Hynafiaethau Cludadwy.

Mae'r cyllid hwn wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru a'i weinyddu gan Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru i gefnogi sefydliadau i gyflawni'r Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant.
Uchafswm y grant sydd ar gael yw £10,000. Nid oes isafswm. Nid oes angen cyllid cyfatebol. Rhaglen dreigl o grantiau yw hon gyda chyllid ar gael ar sail y cyntaf i'r felin.
https://museumsfederation.cymru/cy/grantiau/

# Cadwch y dyddiad ar gyfer Cynhadledd Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru

Mae pwyllgor y Ffederasiwn yn falch iawn o gyhoeddi y bydd cynhadledd eleni yn cael ei chynnal yn Storiel Bangor. Blwyddyn etholiad yw hon, a ffocws y gynhadledd yw Maniffesto'r Ffederasiwn o'r enw Maniffesto ar gyfer Amgueddfeydd: Diogelu ein Dyfodol. Bydd hon yn gynhadledd hybrid, ond gan nad oes llawer o gyfleoedd i gyfarfod a rhwydweithio â gweithwyr proffesiynol eraill, byddem yn eich annog i fynychu'n bersonol yn Storiel ddydd Iau 5 Mawrth 2026. Mae'r amgueddfa'n hygyrch i'r cyhoedd a bydd eich cludiant eich hun a grantiau ar gael.
Bydd siaradwyr yn datblygu gwahanol amcanion y Maniffesto, sy'n cynnwys; Bil Diwylliant Cymru, Treftadaeth Ddiwylliannol Anhygyrch, Llesiant, Iaith, Goleuni ar 2025 a Chynllun Cydnabyddiaeth i'w casgliadau
**Codwch y dyddiad a bydd rhagor o fanylion yn dilyn yn fuan.**



Llun gan Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru.

Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru | Museums Federation Cymru